**Cyngor Partneriaeth Cymru – 7 Gorffennaf 2025**

**10.30 - 12.05**
**Cyfarfod hybrid**
**Teams**
**ac**
**(Amroth 2, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays)**

## Sylwadau agoriadol gan y Cadeirydd

### Jane Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai

1. Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai (Ysgrifennydd y Cabinet) yr aelodau i'r cyfarfod, gan nodi'r ymddiheuriadau.

2. Cyn mynd i'r afael â phrif eitemau'r agenda, cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at lofnodi'r Cytundeb Partneriaeth Strategol yng Nghynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ar 19 Mehefin, gan dynnu sylw ato fel carreg filltir arwyddocaol yn y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru.

3. Fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet hefyd gydnabod pen-blwydd diweddar trasiedi Tŵr Grenfell a thynnodd sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru heddiw (dydd Llun 7 Gorffennaf) yn cyhoeddi ei hymateb i argymhellion Cam Dau Ymchwiliad Tŵr Grenfell. Hefyd heddiw, gosodwyd Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) gerbron y Senedd. Nod y Bil yw gwella diogelwch adeiladau yng Nghymru, drwy gyflwyno cyfundrefn diogelwch adeiladau newydd sy'n cwmpasu meddiannu adeiladau preswyl amlfeddiannaeth yng Nghymru a'u rheoli'n barhaus.

## Eitem 1 ar yr agenda: Llywodraeth Leol yn cefnogi'r Economi Sylfaenol

### Dan arweiniad Nick Sullivan, Is-adran yr Economi Sylfaenol, Llywodraeth Cymru

4. Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet Nick Sullivan, o Is-adran Trawsnewid Diwydiannol a’r Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru, i arwain yr eitem agenda gyntaf ar bwysigrwydd yr economi sylfaenol ac ymdrechion Llywodraeth Cymru i'w chefnogi.

5. Tynnodd Nick sylw at bwysigrwydd yr economi sylfaenol, gan gynnwys sectorau hanfodol fel bwyd, tai, a gofal, ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i feithrin yr economi hon drwy greu swyddi, gwaith teg, a chadwyni cyflenwi lleol gwydn.

6. Cadarnhaodd Nick fod Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi cyhoeddi adroddiad ym mis Ebrill gyda deg argymhelliad, gan gynnwys ar ddiffiniad polisi, ymgysylltu â rhanddeiliaid, caffael cynhwysol, a recriwtio lleol, gan dynnu sylw at fentrau recriwtio lleol llwyddiannus fel dull "tyfu eich gweithlu

eich hun" Hywel Dda ym maes nyrsio a'r rhaglen brentisiaethau gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

7. Codwyd y pwyntiau allweddol canlynol gan yr aelodau:

- Yr ymgyrch lwyddiannus i recriwtio prentisiaid proffesiynol ym maes cynllunio yn Sir Fynwy.
- Trafodwyd menter "tyfu eich hun" Powys ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a'r angen am gyflog ac amodau cyfartal ar draws sectorau er mwyn osgoi cystadleuaeth.
- Cynigiwyd rhoi mwy o bwyslais ar yr economi werdd, gan gyfeirio at fentrau rhanbarthol a ariennir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol gyda'r nod o gefnogi pobl ifanc i gael cyflogaeth werdd.
- Cafwyd galwad am gydweithio cryfach ymhlith cyflogwyr y sector cyhoeddus, gan dynnu sylw at Ymrwymiad Caerdydd fel model ar gyfer creu cyfleoedd i bobl ifanc.
- Nodwyd bod sicrhau cydbwysedd rhwng dulliau lleol, o'r gwaelod i fyny a'r angen am raddfa wrth gaffael yn parhau i fod yn her, yn enwedig pan ddaw i fesur effaith ymdrechion yr economi sylfaenol.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd ymgorffori'r cod ymarfer cyllido ar gyfer y trydydd sector, ochr yn ochr â chydnabod gallu'r sector i ddarparu atebion arloesol i heriau'r economi sylfaenol.
- Er bod caffael cydweithredol yn cael ei groesawu, codwyd pryderon am y cymhlethdod ychwanegol y mae'n ei gyflwyno, a allai roi busnesau llai dan anfantais yn anfwriadol.
- Pwysleisiodd y drafodaeth hefyd werth gwaith teg a chytundebau sectorol, gan gyfeirio at ymdrechion parhaus y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol i symleiddio a gwella fframweithiau caffael.

## Eitem 2 ar yr agenda: Newid Hinsawdd

### Newid Hinsawdd: lliniaru, gwydnwch ac arweinyddiaeth – cynnydd a llwybrau yn y dyfodol

**Dan arweiniad Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

8. Ar gyfer rhan gyntaf yr eitem agenda hon, gwahoddodd Ysgrifennydd y Cabinet y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig (y Dirprwy Brif Weinidog), Huw Irranca-Davies AS, i arwain trafodaeth a oedd yn canolbwyntio ar liniaru, gwydnwch ac arweinyddiaeth mewn perthynas â newid hinsawdd.

9. Pwysleisiodd y Dirprwy Brif Weinidog y brys o ran mynd i'r afael â newid hinsawdd, gan dynnu sylw at amlder cynyddol digwyddiadau tywydd eithafol a'r angen am ymateb ar y cyd. Diolchodd i awdurdodau lleol am eu hymdrechion a phwysleisiodd yr angen am gamau gweithredu beiddgar a chydweithio pellach. Trafodwyd enghreifftiau o fentrau lleol, fel pympiau gwres a phaneli solar mewn ysgolion.

10. Tynnodd y Dirprwy Brif Weinidog sylw at y pwyntiau allweddol canlynol mewn perthynas â llwyddiannau a heriau cyfredol:

- **Cyllidebau Carbon:** Mae Cymru wedi rhagori ar ei tharged yn y gyllideb garbon gyntaf ac mae ar y trywydd iawn i gyflawni'r ail. Fodd bynnag, bydd cyflawni'r drydedd gyllideb garbon erbyn 2030 yn heriol ac mae'n gofyn am ymdrech o'r newydd gan bob sector.
- **Y Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024**: Amlinellodd y strategaeth gamau gweithredu a chynlluniau ar gyfer adeiladu gwydnwch a lleihau effaith newid hinsawdd.
- **Buddsoddi mewn Gwydnwch:** Ymhlith yr enghreifftiau mae Cynllun Rheoli Perygl Arfordirol Prestatyn, sydd wedi cael cyllid sylweddol a fydd yn diogelu miloedd o eiddo rhag llifogydd.
- Yr angen i **ailystyried y naratif ynghylch newid hinsawdd i bwysleisio'r buddion buddsoddi i arbed a'r effeithiau cadarnhaol uniongyrchol** ar swyddi ac economïau lleol.

11. Cyfeiriodd y Dirprwy Brif Weinidog hefyd at y meysydd canlynol:

- **Asesu Risgiau:** Dylai awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus asesu risgiau yn sgil yr hinsawdd ac integreiddio ystyriaethau o ran newid hinsawdd yn eu holl weithgareddau cynllunio a gweithrediadau.
- **Ymgysylltu â'r Gymuned:** Mae ymgysylltu â chymunedau i ddeall eu hanghenion a datblygu atebion a rennir yn hanfodol.
- **Cymorth Llywodraeth Cymru:** Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ar gael i gefnogi sefydliadau i sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau datgarboneiddio.

12. Codwyd y pwyntiau allweddol canlynol gan yr aelodau:

- Nodwyd manteision cymdeithasol a manteision o ran cyflogaeth prosiectau amddiffyn rhag llifogydd, gan roi pwyslais ar sicrhau gwaddol hirdymor a datblygu sgiliau.
- Awgrymwyd y dylid fframio mentrau hinsawdd fel mentrau "buddsoddi i arbed" i helpu i fynd i'r afael â phryderon y cyhoedd am gyllid sy'n cael ei ddargyfeirio o wasanaethau craidd.
- Codwyd pryderon am effeithiau prosiectau ynni ar raddfa fawr ar gymunedau lleol, gan dynnu sylw at yr angen am well gwaith cynllunio i sicrhau buddion lleol.
- Trafodwyd yr heriau o ddatgarboneiddio adeiladau hŷn, ochr yn ochr â'r buddsoddiad sylweddol sydd ei angen i fynd i'r afael â nhw.
- Tanlinellwyd rôl undebau llafur wrth hyrwyddo swyddi gwyrdd, gan gynnig eu bod yn ymwneud mwy â grwpiau gorchwyl a gorffen.
- Roedd y Dirprwy Brif Weinidog yn cydnabod yr angen am well cyfathrebu a naratif ynghylch mentrau hinsawdd, gan bwysleisio'r manteision uniongyrchol a hirdymor. Croesawodd gydweithio pellach gydag undebau llafur ac awdurdodau lleol i fynd i'r afael â heriau a manteisio ar gyfleoedd.

**Gweithredu'r Eitem:** Awgrym i wahodd Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU i'r cyfarfod nesaf i gael gwybodaeth am lwybrau tuag at 2050 a chyllidebau carbon yn y dyfodol.

*O ganlyniad i'r eitem uchod yn rhedeg dros ei hamser, gohiriwyd diweddariad y Panel Strategaeth Hinsawdd. Dechreuwyd eitem 3 ar yr agenda, cyn mynd ati i ailystyried yr eitem isod ar ddiwedd y cyfarfod.*

## Diweddariad ar waith y Panel Strategaeth Hinsawdd Llywodraeth Leol

**Dan arweiniad CLILC a'r Cynghorydd John Spanswick, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

13. Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet y diweddariad rheolaidd ar waith y Panel Strategaeth Hinsawdd Llywodraeth Leol a Rhaglen Cymorth Hinsawdd CLILC fel ail ran yr eitem hon.

14. Siaradodd y Cynghorydd John Spanswick, yn rhinwedd ei swydd fel llefarydd ar ran y Panel Strategaeth Hinsawdd Llywodraeth Leol (y Panel), am gynnydd a gweithgareddau'r Panel, gan bwysleisio pwysigrwydd cydweithio a rhannu dysgu ymhlith awdurdodau lleol:

- **Caffael:** Mae canllawiau ar gynlluniau lleihau carbon yn cael eu cwblhau, gan ganolbwyntio ar leihau'r ôl troed carbon drwy arferion caffael.
- **Trafnidiaeth:** Mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â throsglwyddo fflydoedd cerbydau cynghorau i gerbydau trydan, gan rannu arferion da rhwng cynghorau.
- **Adeiladau:** Mae pob cyngor wedi cael cynllunydd senario i asesu'r costau a'r arbedion carbon yn sgil datgarboneiddio eu hystadau.
- **Defnydd Tir:** Darparwyd hyfforddiant i gynghorau ar ddefnyddio offer i asesu goblygiadau carbon newid defnydd tir.
- **Grantiau Ariannol:** Mae rhaglen gymorth CLILC yn cynnig grantiau ariannol ar raddfa fach i gynghorau. Cyhoeddwyd manylion y grantiau hyn yn ddiweddar.

15. Roedd papur drafft ar addasu a gwydnwch yn cael ei lunio ar gyfer cyfarfod o Fwrdd Gweithredol CLILC ym mis Gorffennaf.

16. Gan droi at flaenoriaethau yn y dyfodol, pwysleisiodd y Cynghorydd John Spanswick set o ymrwymiadau arfaethedig sydd wedi'u cynllunio i wella cydweithio a gwydnwch:

- **Cydweithio a Phartneriaethau:** Pwysleisio pwysigrwydd cydweithio ar draws cynghorau a chyda rhanddeiliaid lleol.
- **Gwydnwch Gwasanaethau:** Nodi risgiau lefel gwasanaeth, a mynd i'r afael â nhw, i sicrhau gwydnwch o dan senarios hinsawdd gwahanol.
- **Gwydnwch Cymunedol:** Datblygu cynlluniau gwydnwch cymunedol mewn partneriaeth â rhanddeiliaid lleol, gan gynnwys y sector gwirfoddol.
- **Arweinyddiaeth:** Yr angen am hyfforddiant addasu i'r hinsawdd ar gyfer aelodau etholedig ac uwch-reolwyr.

17. Mewn perthynas â gwydnwch cymunedol, cyfeiriodd y Cynghorydd Spanswick at ddigwyddiad ym Mhen-y-bont ar Ogwr lle collodd cymuned gyflenwad trydan am bedwar diwrnod, gan dynnu sylw at yr angen am gydgysylltu a rhannu gwybodaeth yn well am bobl agored i niwed ymhlith awdurdodau lleol, byrddau iechyd, a darparwyr trydan.

18. Cadarnhawyd y byddai'r strategaeth addasu yn cael ei hadolygu a'i mabwysiadu gan Fwrdd Gweithredol CLILC yn ddiweddarach ym mis Gorffennaf, ac y byddai diweddariadau pellach yn dilyn.

## Eitem 3 ar yr agenda: Mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb – ein hymrwymiad a rennir i Symleiddio Budd-daliadau Cymru a'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

**Dan arweiniad Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**

19. Gwahoddodd Ysgrifennydd y Cabinet Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd, a'r Prif Chwip i arwain yr eitem agenda a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Siarter Budd-daliadau Cymru a'r map trywydd Cam Un. Nod y fenter hon oedd symleiddio'r broses ar gyfer hawlio budd-daliadau, megis Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, Prydau Ysgol am Ddim, a'r Grant Hanfodion Ysgol. Nodwyd mis Ebrill 2026 fel dyddiad targed ar gyfer gweithredu.

20. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd, a'r Prif Chwip fod cyllid o ychydig o dan £500,000 wedi'i gyhoeddi i gefnogi awdurdodau lleol i gymryd rhan yn y gwaith o gyflawni'r map trywydd Cam Un.

21. Roedd cynllun peilot, a oedd yn cynnwys 12 awdurdod lleol a'r cwmni dadansoddi data Policy in Practice, ar y gweill i fynd i'r afael â heriau o ran rhannu data a nodi trigolion sy'n colli allan ar eu hawliau.

22. Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd, a'r Prif Chwip sylw hefyd at fanteision lluosog symleiddio budd-daliadau, gan gynnwys mwy o foddhad ymhlith timau budd-daliadau, llai o ddibyniaeth ar wasanaethau eraill, a hwb economaidd. Pwysleisiwyd yr angen i chwalu rhwystrau o ran rhannu data hefyd.

23. Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd, a'r Prif Chwip yr Athro Emmanuel Ogbonna, Cyd-gadeirydd y Grŵp Atebolrwydd Allanol ar gyfer y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol i fyfyrio ar y gwaith o weithredu'r cynllun o ran mynd i'r afael â hiliaeth ac ymgorffori arferion gwrth-hiliol ar draws gwasanaethau cyhoeddus.

24. Tynnodd yr Athro Ogbonna sylw at y pwyntiau allweddol canlynol:

- Pwysigrwydd llywodraeth leol i gyflawni'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a rôl y Grŵp Atebolrwydd Allanol wrth fonitro'r gwaith gweithredu.
- Pwysleisiodd yr Athro Ogbonna yr angen am arweinyddiaeth i fynd i'r afael â hiliaeth a phwysigrwydd deall graddfa hiliaeth o fewn sefydliadau. Anogodd arweinwyr i adolygu data cyflogaeth a mynd i'r afael â gwahaniaethau.
- Wrth drafod y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, roedd y ffocws ar fynd i'r afael â rhwystrau systemig ac anghydraddoldebau mewn gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau arferion gwrth-hiliol cyson.

25. Codwyd y pwyntiau allweddol canlynol gan yr aelodau:

- Y mater o lwybr dilyniant ar gyfer gweithwyr ethnig leiafrifol o fewn sefydliadau.
- Yr awgrym o ymgorffori amcanion gwrth-hiliaeth mewn dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer rheolwyr. Cynigiwyd cefnogaeth gan y Grŵp Atebolrwydd Allanol i sefydliadau sy'n awyddus i newid eu diwylliant.

26. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i aelodau'r Cyngor Partneriaeth am eu hymgysylltiad a phwysleisiodd y cyfrifoldeb ar y cyd i gyflawni canlyniadau'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Daeth Ysgrifennydd y Cabinet â'r cyfarfod i ben drwy dynnu sylw at bwysigrwydd canolbwyntio ar gydlyniant cymunedol a dysgu gyda'n gilydd.

## Sylwadau i gloi

**Jane Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**

27. Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet a oedd yna unrhyw fater arall. Gan na chodwyd unrhyw faterion ychwanegol, diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r aelodau am eu presenoldeb a'u cyfraniadau.

28. Nodwyd bod y dyddiad ar gyfer y cyfarfod yn ystod tymor yr hydref i'w gadarnhau, gan obeithio cynnal cyfarfod wyneb yn wyneb am y tro cyntaf ers COVID. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'n croesawu barn yr aelodau ynghylch a fyddent yn dymuno cwrdd wyneb yn wyneb ac, os felly, iddynt awgrymu lleoliadau. Byddai'r ysgrifenyddiaeth yn mynd ar drywydd hyn.